

Canllaw i fesuryddion clyfar ar gyfer busnesau bach

Beth yw mesurydd clyfar?

Mesuryddion clyfar yw'r genhedlaeth nesaf o fesuryddion nwy a thrydan sy'n cael eu cyflwyno mewn cartrefi a busnesau bach ar draws Prydain Fawr gan gyflenwyr ynni. Mae hanner o fusnesau cymwys eisoes wedi cael gosodiad mesurydd clyfar neu soffistigedig.

Mae mesuryddion clyfar yn mesur yn ddigidol faint o ynni rydych chi'n ei ddefnyddio ac yn anfon eich darlenniadau mesurydd yn uniongyrchol at eich cyflenwr ynni ar gyfnodau y cytunwyd arnynt, gan roi diwedd ar filiau wedi'u hamcangyfrif. Mae data mesuryddion clyfar hefyd yn galluogi cynhyrchion a gwasanaethau newydd ac arloesol i gefnogi busnesau a'u defnydd o ynni.

Manteision ar gyfer busnesau bach

Rheolaeth

Gall mesuryddion clyfar roi mwy o reolaeth i chi dros wariant ynni eich busnes diolch i'r data maen nhw'n ei ddarparu. Mae bod yn fwy ymwybodol o faint o ynni rydych chi'n ei ddefnyddio a phan fyddwch chi'n ei ddefnyddio'n golygu y gallwch wneud newidiadau bach fel bod eich busnes yn fwy effeithlon.

Mae ein hymchwil yn dangos bod busnesau sydd â mesuryddion clyfar ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi monitro eu defnydd o ynni yn ystod yr wythnos ddiwethaf o'i gymharu â busnesau heb un, ac maen nhw hefyd yn fwy tebygol o fynd ati i reoli eu defnydd o ynni.*

Cywirdeb

Mae mesuryddion clyfar yn rhoi biliau ynni cywir i chi, felly rydych chi'n talu am yr ynni y mae eich busnes yn ei ddefnyddio mewn gwirionedd, yn hytrach na thrwy filiau amcangyfrifedig.

Mae hyn oherwydd bod y mesurydd clyfar yn mesur yn ddigidol faint o ynni rydych chi'n ei ddefnyddio bron mewn amser real, ac yn anfon eich darlenniadau mesurydd yn uniongyrchol at eich cyflenwr ynni ar gyfnodau y cytunwyd arnynt.

Mae hyn yn golygu na fydd angen i chi anfon darlenniadau mesuryddion i'ch cyflenwr mwyach, ac mae'n rhoi diwedd ar filiau wedi'u hamcangyfrif.

Arbed costau

Gall eich mesurydd clyfar ddarparu data am y defnydd o ynni i'ch helpu i wneud dewisiadau mwy gwybodus am sut rydych chi'n defnyddio ynni yn eich busnes.

Mae busnesau sydd â mesuryddion clyfar yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio'r wybodaeth hon yn ystod y 6 mis diwethaf i wneud newidiadau o gwmpas y busnes, er enghraifft adolygu arferion gwaith er mwyn lleihau'r angen am ynni neu newid goleuadau i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon. Maen nhw hefyd yn fwy tebygol o ymchwilio a phrynu offer a chyfarpar sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon.

Sut i gael mesurydd clyfar i'ch busnes

Waeth p'un a ydych yn rhentu neu'n berchen ar eich gofod busnes efallai y byddwch yn gymwys i gael mesurydd clyfar os oes gan eich busnes y canlynol:

- llai na 10 o weithwyr neu eu cyfwerth amser llawn (gan gynnwys perchennog y busnes)
- trosiant blynyddol o lai na £1.67 miliwn; neu
- ddefnydd ynni o ddim mwy na 100,000 kWh o drydan y flwyddyn; neu ddefnydd nwy o ddim mwy na 293,000 kWh y flwyddyn

Os nad oes gennych eich mesurydd nwy a/neu drydan eich hun, gofynnwch i'ch landlord os ydyn nhw'n bwriadu cael un ar gyfer eich adeilad.

Gall cynigion mesuryddion clyfar amrywio rhwng cyflenwyr ynni, ac mae'n bosib bod gan gyflenwr gwahanol delerau ac amodau cysylltiedig gwahanol. Efallai y bydd modd hefyd i chi gael mesurydd clyfar os oes gennych fusnes bach gyda mwy na 10 o weithwyr.

Cysylltwch â'ch cyflenwr ynni neu'ch brocer am fwy o fanylion.

Astudiaeth achos

Salon Gwallt Amaryllis, Caerdydd

Tiffany Hall a Rebecca Ryce yw cyd-berchnogion Amaryllis, salon ecogyfeillgar yng Nghaerdydd sydd â chwech o weithwyr. Yn ddiweddar cawsant osodiad mesurydd clyfar gan eu cyflenwr ynni i helpu i arbed arian a gwneud eu busnes hyd yn oed yn fwy cynaliadwy.

Rydyn ni'n credu'n gryf mewn gofalu am y blaned ar gyfer y genhedlaeth nesaf, felly mae'n hynod o bwysig i ni bod ein salon mor ecogyfeillgar â phosib. Roeddem eisoes wedi cymryd nifer o gamau arbed ynni yn y busnes, ond er gwaethaf hyn roeddem weithiau'n ei chael hi'n anodd cadw llygad ar faint o ynni yr oeddem yn ei ddefnyddio neu ba offer a gweithgareddau oedd yn achosi gwastraff diangen a chostau ychwanegol.

Newidiodd hynny oll pan gawson ni'r gosodiad mesurydd clyfar. Roedd yn hawdd iawn i'w drefnu ac roedd y gosodiad ei hun yn gyflym ac yn syml. Cawsom fynediad ar unwaith at ein defnydd o ynni a'n costau ynni, sydd wedi ei gwneud yn haws o lawer i nodi'r hyn sy'n defnyddio'r mwyaf o ynni, ar ba amserau, ac i gymryd camau i wneud arbedion.

Mae hefyd wedi bod yn offeryn defnyddiol iawn i helpu ein staff i reoli defnydd ynni ein salon. Gan y gallant weld bellach faint mae'r ynni maen nhw'n ei ddefnyddio yn ei gostio mewn punnoedd a cheiniogau, maen nhw'n fwy ymwybodol o gymryd camau fel diffodd y boeler dŵr neu ddadblygio offer trydanol o'r socedi ar ddiwedd y dydd. Yn ogystal â bod yn well i'r amgylchedd, yn ddi-os mae hyn wedi arbed llawer o arian i ni dros amser, gan nad ydym yn talu'n ddiangen am ynni i redeg eitemau segur.

Yn y pen draw, pŵer yw gwybodaeth o ran arbed ynni. Mae'n gallu bod yn anodd i berchnogion busnesau bach wybod ble i ddechrau pan fyddan nhw eisieu torri eu defnydd o ynni a'u costau - yn enwedig pan na allant weld faint maen nhw'n ei ddefnyddio ac ar ba amserau. Gyda mesurydd clyfar byddwch yn cael biliau cywir, dim rhagor o amcangyfrifon, a'r amlygrwydd sydd ei angen arnoch i wneud newidiadau i'r ffordd rydych chi'n defnyddio ynni.



Cwestiynau Cyffredin

A godir tâl ar fy musnes i gael mesurydd clyfar?

Trwy'r ymgyrch genedlaethol, gall llawer o fusnesau bach gael mesurydd clyfar heb unrhyw gost ychwanegol.

Gan ddibynnu ar gyflenwr ynni a thariff eich busnes, mae'n bosib y codir tâl arnoch am ran o'r uwchraddiad neu i gael mynediad at eich data defnyddio ynni. Bydd eich cyflenwr yn rhoi gwybod i chi am unrhyw daliadau ymlaen llaw.

Alla i gael mesurydd clyfar os ydw i'n rhentu fy ngofod busnes?

Gallwch. Os ydych chi'n rhentu eich gofod busnes ac yn talu eich biliau ynni eich hun, yna gallwch ofyn i'ch cyflenwr osod mesurydd clyfar, neu efallai y byddant yn cysylltu â chi'n uniongyrchol i gynnig un. Efallai y bydd angen i chi wirio gyda'ch landlord bod unrhyw newidiadau i'ch mesurydd wedi'u caniatáu o fewn eich contract rhent. Os yw eich landlord yn talu'r biliau ynni, yna dylech ofyn iddyn nhw a yw'n bwriadu cael un ar gyfer eich adeilad.

Faint o amser mae'r gosodiad yn ei gymryd?

Mae gosodiadau'n cymryd tua dwy awr fel arfer ac maent yn cael eu trefnu ymlaen llaw fel y gallwch wneud unrhyw drefniadau angenrheidiol i sicrhau cyn lleied o effaith ar eich gweithrediadau busnes arferol â phosib.

Dwi'n poeni am yr amhariad ar fy musnes. A allaf drefnu gosodiad y tu allan i oriau gwaith?

Bydd eich cyflenwyr ynni'n cydweithio â chi i ddod o hyd i amser sy'n gyfleus i bawb. Cysylltwch â'ch cyflenwr i gael gwybod beth sydd ar gael.

Dysgwch fwy am fanteision mesuryddion clyfar ar gyfer busnesau bach yn:
smartenergyGB.org/about-smart-meters/small-businesses